TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Mae eich ymholiad dyddiedig 13 Ebrill 2021 a anfonwyd at Reolwr Rhanddeiliaid TrC, [redacted], wedi cael ei drin fel cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"Roeddwn i'n cael trafodaeth gydag un o'n haelodau ychydig ddyddiau'n ôl ac mae o dan yr argraff bod gan Bow Street blatfform 6 cherbyd. Yn y cynlluniau gwelsom fod y tir yn cael ei brynu ar gyfer estyniad platfform posibl i'r gorllewin, ond roedd y gwaith adeiladu cychwynnol yn mynd i fod yn blatfform 4 cerbyd. A yw'n 4 neu'n 6?

Ac er diddordeb yn unig – newidiwyd y ffordd a'r maes parcio yn sylweddol o'r cynllun gwreiddiol. A oes unrhyw beth wedi'i gyhoeddi ynghylch y costau adeiladu gwirioneddol o'i gymharu â'r gost NSF a gyllidebwyd?"

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Hyd gwirioneddol Platfform Gorsaf Bow Street yw 100 metr. Mae'n blatfform pedwar cerbyd ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi cynnwys diagram gorsaf; mae hyd y platfform yn wyrdd. Dangosir hyd ychwanegol o 50 metr mewn glas, er nad yw'n cael ei ddefnyddio. Cafodd yr hyd ychwanegol hwn ei gynnwys fel opsiwn yn y dyfodol i ymestyn y platfform ar sail y galw. Nid yw hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac ni allwn ddweud pryd y gallwn wneud hynny yn y dyfodol.

Mae dadansoddiad o'r costau a amcangyfrifir o'i gymharu â gwir gost y prosiect wedi'i amlinellu yn y tabl isod. Mae'r anawsterau a wynebwyd o ran y risgiau llifogydd a wynebwyd yn bennaf yn cyfrif am y gorwariant a nodwyd.

Eitem	Amcangyfrif o'r Gost 2017	Cost Wirioneddol ar ôl Cwblhau
1. Dylunio a Sicrwydd	£741,351	£1,201,805
2. Adeiladu	£4,551,805	£6,948,465
3. Ymgysylltu, lawndal a Hyfforddi	£101,271	£190,013
4. Rheoli Prosiect	£605,573	£852,300
Cyfanswm (heb gynnwys TAW)	**£6,000,000**	**£9,192,583**

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".